Cartrefi Conwy

Creu cymunedau i fod yn falch ohonynt
Creating communities to be proud of

We Do The Right Thing
We Lead By Example
We Are Stronger Together

## Proffil y Swydd

# Ymgynghorydd Cynorthwyol Iechyd a Diogelwch

## Yn atebol i'r:

Rheolwr Cydymffurfiaeth Grŵp Iechyd a Diogelwch

## Tîm:

Tîm Iechyd a Diogelwch - Gwasanaethau Cefnogi

## Yn Rheolwr Atebol ar:

Dim

## Lleoliad:

Morfa Gele - Abergele gydag ymweliadau safle ar draws yr holl ardaloedd gweithredol

## Cyflog, Oriau a Gwyliau:

Oriau gwaith: Llawn Amser, Parhaol (37 awr yr wythnos)
Cyflog: I'w gadarnhau gros y flwyddyn
25 diwrnod o wyliau a gwyliau banc (yn codi i 32 diwrnod gyda gwasanaeth) yn ogystal ag amser hyblyg yn ôl polisi'r sefydliad

## Pwrpas y Swydd:

Mae hon yn rôl ddatblygu, gan alluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i ddod yn gymwys ymhob agwedd ar y cyfrifoldebau a nodir a chyflawni swyddogaeth 'unigolyn cymwys' ar gyfer iechyd a diogelwch, a chynorthwyo Cartrefi Conwy a'i is-gwmnïau wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion deddfwriaethol ac arferion gorau, gan hyrwyddo diwylliant iechyd a diogelwch rhagweithiol a gweladwy iawn. Mae'r cyfle rôl datblygu ar gyfer Ymgynghorydd Cynorthwyol Grŵp Iechyd a Diogelwch ac mae angen o leiaf blwyddyn o brofiad Iechyd a Diogelwch llawn amser, ynghyd â chymhwyster Tystysgrif Gyffredinol Genedlaethol NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol, gyda'r parodrwydd i gwblhau cymwysterau ychwanegol os nad oes gan yr ymgeisydd llwyddiannus y rhain yn barod, megis (ond nid yn gyfyngedig i): Diploma Cenedlaethol NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol, Tystysgrif Tân NEBOSH a Thystysgrif Adeiladu NEBOSH. Bydd gan y rôl ymgynghorydd cynorthwyol a'r ymgynghorydd grŵp, elfen o weithgareddau ar y safle ac yn y swyddfa. Yn gweithio mewn meysydd megis: tai, adeiladu a gweithgynhyrchu.

Cefnogi'r tîm Iechyd a Diogelwch gyda threfniadau gweinyddol yn ôl y gofyn, megis: systemau rheoli data, rheolaeth olrhain amrywiol, casglu data ar gyfer adroddiadau Bwrdd, Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a gwobr cyflawniad yn y gweithlu RoSPA.

## Gwahanol Agweddau'r Swydd:

Rhoi cyngor a chymorth ynghylch y trefniadau Iechyd a Diogelwch ymhob rhan o Gartrefi Conwy a'i is-gwmnïau, gan geisio cyngor arbenigol ar iechyd a diogelwch lle bo'r gofyn.

## Pwyslais a Chyfrifoldebau Allweddol:

Cyflawni archwiliadau safle, ymweliadau archwilio ac arsylwi, wedi'i gefnogi i ddechrau gan uwch aelodau o'r tîm Iechyd a Diogelwch ac yna'n symud ymlaen i arwain gweithgareddau safle o'r fath.



ARMED FORCES COVENANT
disability confident EMPLOYER

Cefnogi i adolygu a llunio dogfennau amrywiol gan gynnwys: asesiadau risg, polisïau a datganiadau dull.

Darparu cyngor a chymorth Iechyd a Diogelwch i holl feysydd o gyfrifoldeb y Grŵp.

Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd.

Cynorthwyo mewn ymchwiliadau i ddamweiniau a gweithredu mesurau gwella a chamau ataliol.

Cydlynu'r trefniadau gweinyddol ar gyfer pob agwedd ar iechyd a diogelwch ymhob rhan o Gartrefi Conwy a'i is-gwmnïau.

Monitro'r dangosyddion risg a pherfformiad allweddol ar gyfer y grŵp a llunio adroddiadau er sylw'r Grwpiau Cydymffurfiaeth Statudol a'r Pwyllgorau Iechyd a Diogelwch.

Cydlynu'r trefniadau iechyd a diogelwch mewn perthynas â holl feysydd, gan gynnwys: wardeiniaid tân, cynrychiolwyr iechyd a diogelwch etholedig, unigolion yn gweithio ar eu pen eu hunain, HAVS, ansawdd aer a swyddogion cymorth cyntaf.

Cefnogi'r gwaith o gydlynu'r holl achrediadau allanol ym maes iechyd a diogelwch.

Ymgysylltu gyda sefydliadau trydydd parti yn ôl yr angen.

Cynorthwyo i weinyddu a chydlynu'r rhaglen gwyliadwriaeth iechyd er mwyn sicrhau y cwblheir y gwiriadau iechyd yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r polisi.

Cyfrannu tuag at gynnal a chadw meddalwedd yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch gan alluogi a chefnogi defnyddwyr.

**Datblygiad Proffesiynol**

***Yn dilyn caffael y cymwysterau a nodir a phrofiad llawn amser yn y swydd, fel y tystiolaethir drwy gymeradwyaeth, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yna'n symud ymlaen i swydd Ymgynghorydd Cynorthwyol Grŵp Iechyd a Diogelwch.***

***Meysydd Cymhlethdod:***

Ceir rhywfaint o ryddid i ddehongli'r cyd-destun deddfwriaethol (deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch) yn ôl amgylchiadau unrhyw achos. Mae hynny'n golygu y gallai fod amrywiaeth o ffyrdd o weithredu, a byddai gofyn pwyso a mesur y risgiau tebygol gan roi sylw i gyfraith achos sy'n datblygu o hyd, er mwyn cynghori rheolwyr ar faterion Iechyd a Diogelwch.

**Hyfforddi a datblygu**

Ar ôl cwblhau o leiaf blwyddyn ar y rhaglen Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Cynorthwyol llawn amser, disgwylir i ddeiliad y swydd fod yn Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch cymwys yn unol â'r diffiniad cyfreithiol a geir yn y ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.

| |
|---|
| Disgwylir i ddeiliad y swydd gwblhau Diploma Cenedlaethol NEBOSH a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio "DipNEBOSH" ar ôl eu henwau. Yna cânt eu cefnogi i wneud cais am Aelod Ardystiedig o Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (CertIOSH).<br><br>Yn ogystal â hynny, bydd deiliad y swydd yn cael eu cefnogi ar y swydd ac yn derbyn amcanion a cherrig milltir lleol i ddatblygu eu gwybodaeth ymarferol o holl arferion iechyd a diogelwch.<br><br>Bydd hyfforddiant pellach yn golygu cwblhau cyrsiau amrywiol megis: Gweithdai CDM (SMSTS -CITB).<br><br>Cyffredinol<br>• Bwriad y swydd-ddisgrifiad yw rhoi trosolwg cyffredinol o rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd y swydd, ac nid yw'n rhestru popeth a fydd yn ofynnol.<br>• Mae disgwyl i weithwyr ddilyn cyfarwyddiadau rhesymol a chyflawni dyletswyddau eraill ar gais y rheolwyr sy'n gymesur â'r rôl ac sy'n gyfreithlon, yn foesegol, o fewn cwmpas eu dyletswyddau ac yn cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau'r cwmni. |

## Perthnasoedd Allweddol:

| |
|---|
| **Allanol:** Tenantiaid, aelodau o'r gymuned, wyneb yn wyneb wrth arolygu cymdogaethau.<br>Contractwyr a chrefftwyr, wyneb yn wyneb a thrwy e-bost neu dros y ffôn, i hwyluso cyfathrebu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth a pholisïau Iechyd a Diogelwch.<br>Darparwyr hyfforddiant a chyfarpar Iechyd a Diogelwch i geisio prisiau, cymeradwyo cynnwys ac ati bob mis.<br>Contractwyr, ar gyfer archwiliadau a gwirio arferion gwaith.<br>Grwpiau Rhwydwaith Iechyd a Diogelwch, bob mis er arweiniad a meincnodi.<br>Awdurdodau gorfodi (y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch, Iechyd yr Amgylchedd, yr Arolygiaeth Gynllunio) yn unol â gofynion a chyfarwyddyd y rheolwr atebol a Swyddog Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. |
| **Mewnol:** Staff - bob dydd i roi cyngor ac arweiniad ynghylch trefniadau gweinyddol Iechyd a Diogelwch.<br><br>Rheolwr Atebol – i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf.<br><br>Y Tîm Iechyd a Diogelwch – i weithio fel tîm a chefnogi gydag ymdrechion a meysydd gwaith eich gilydd. |

# Manylion am yr Unigolyn

## Cymwysterau:

| | **Hanfodol/ Dymunol** | **Asesir drwy?** Ffurflen Gais (FfG) neu (Curriculum Vitae (CV )/ Llythyr Eglurhaol (LlE) ar gyfer swyddi uwch) |
|---|---|---|



ARMED FORCES COVENANT
disability confident EMPLOYER

| | | C – Cyfweliad (C) neu Brawf Gallu |
|---|---|---|
| Meddu ar Dystysgrif Cyffredinol Cenedlaethol NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol ac yn ddelfrydol addysg hyd at lefel gradd | D | FfG/C |
| Meddu ar, neu barodrwydd i weithio tuag at aelodaeth o gorff proffesiynol perthnasol (e.e. IOSH) a'i gynnal wrth symud ymlaen. | H | FfG/C |

## Gwybodaeth a Phrofiad:

| | **Hanfodol/ Dymunol** | **Asesir drwy?** |
|---|---|---|
| Profiad perthnasol o Iechyd a Diogelwch yn y gweithle. Yn ddelfrydol mewn: tai, adeiladu, gweithgynhyrchu. | H | FfG/C |
| Profiad o wneud gwaith ymchwil a llunio adroddiadau, dogfennau busnes a gweithdrefnau | D | FfG/C |

## Sgiliau:

| | Hanfodol/ Dymunol | Asesir drwy? |
|---|---|---|
| Meddu ar sgiliau rhifedd a dadansoddi ac yn fedrus â phecynnau Microsoft Office | H | Ffurflen Gais / Prawf Gallu |
| Sgiliau cynllunio, blaenoriaethu a threfnu | H | FfG/C |
| Cywirdeb a sylw at fanylion mewn arsylwadau safle, adolygu dogfennaeth a mewnbynnu data | H | Prawf Gallu |
| Cryn ddeallusrwydd emosiynol (medru trin pobl) | H | C |
| Gallu cyfathrebu, yn ysgrifenedig ac ar lafar; gan gynnwyd cyflwyno i eraill. | H | FfG/C |
| Gallu cyfathrebu'n rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy gyfrwng y Saesneg | H | FfG/C |
| Gallu cyfathrebu'n rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg | D | FfG/C |
| Gallu gyrru yn y DU a bod â cherbyd y gallwch ei ddefnyddio (os yw'n berthnasol i'r swydd) | H | FfG |

## Ymrwymiadau Cartrefi

| **Ymrwymiadau Cartrefi**; rhaid i bob cydweithiwr allu ymrwymo i'r canlynol: | Hanfodol/ Dymunol | Asesir drwy? |
|---|---|---|
| **Gwneud y peth iawn** – Ceisio gwneud y peth iawn bob tro, hyd yn oed pan nad oes neb yn ein gwylio. Dangos gonestrwydd ym mhopeth a wnawn. | H | Cyfweliad |
| **Arwain drwy esiampl** – Bod yn rhagweithiol a chanolbwyntio ar atebion, gan gymryd cyfrifoldeb personol. | H | Cyfweliad |
| **Bod yn gryfach gyda'n gilydd** – Gweithio fel un tîm. Cyfathrebu'n agored ac yn effeithiol, gan gefnogi'r naill a'r llall a dangos parch at bawb. Gyda'n gilydd, fe gyflawnwn ni fwy. | H | Cyfweliad |

**Datganiad Cyfle Cyfartal** Mae Cartrefi Conwy wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein gweithgareddau ac rydym yn croesawu ceisiadau gan bob ymgeisydd cymwys.

*Os yw anabledd yn atal hyn, bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu gyda'r ymgeiswyr yn ystod y cyfweliad i weld a oes unrhyw addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud ar gyfer y gofyniad hwn.

**Diogelu Data:** Bydd eich data personol yn cael ei drin yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio eich data at ddibenion recriwtio yn unig ac ni fyddwn yn ei rannu ag eraill heb eich caniatâd.



ARMED FORCES COVENANT
disability confident EMPLOYER